Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Adroddiad Chwe Blynedd ar Gynnydd gyda Chynlluniau Morol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2015-2021

Tachwedd 2021

## Cyflwyniad

O dan Adran 50 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA), Gweinidogion Cymru yw awdurdod y cynllun morol ar gyfer rhanbarthau glannau a'r môr mawr yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn bodloni gofyniad adrodd a nodir yn adran 61(1)(c) o'r MCAA. Mae'n nodi'r adroddiad chwe blynedd ar gynnydd gyda chynlluniau morol ar gyfer y rhanbarthau ble mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod ar gyfer y cynllun morol.

## Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Cafodd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP), y cynllun morol cyntaf a fabwysiadwyd o dan y MCAA ar gyfer rhanbarthau glannau a'r môr mawr yng Nghymru, ei fabwysiadu a'i gyhoeddi ar 12 Tachwedd 2019. Roedd ei baratoi a'i gymeradwyo yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a nodir yn Atodlen 6 MCAA.

Mae ardal yr WNMP yn cynnwys tua 32,000 $km^2$ o'r môr, gyda 2,120 km o arfordir. Mae'r WNMP yn cwmpasu rhanbarth glannau Cymru (o benllanw cymedrig y gorllanw allan i 12 milltir forol) a rhanbarth môr mawr Cymru (y tu hwnt i 12 milltir forol) mewn un ddogfen. Ceir map o ardal yr WNMP yn Ffigur 1.

Mae'r WNMP yn darparu fframwaith o bolisïau trawsbynciol cyffredinol a pholisïau sy'n benodol i'r sector, sydd gyda'i gilydd yn cefnogi datblygiad cynaliadwy moroedd Cymru. Fe'i datblygwyd yn unol â Datganiad Polisi Morol y DU 2011 (MPS), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fe'i cefnogir gan ganllawiau anstatudol, sy'n darparu gwybodaeth i lywio'r defnydd ymarferol o bolisïau'r WNMP ac yn helpu i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gyson.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cychwyn gwaith i fapio Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl i nodi a chymhwyso polisi diogelu'r WNMP i ardaloedd adnoddau allweddol. Mae'r WNMP yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno Ardaloedd Adnoddau Strategol, a fydd, drwy ysgogi polisi WNMP SAF_02, yn diogelu ardaloedd adnoddau pwysig sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol.

## Bwriadau ar gyfer diwygio

Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddiwygio'r WNMP. Rhoddir ystyriaeth i'r angen am ddiwygio yn seiliedig ar ganfyddiadau monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y Cynllun.

Bydd y WNMP yn cael ei adolygu a'i adrodd fel sy'n ofynnol gan y MCAA. Yn benodol, yn unol ag adran 61(1)(b) o'r MCAA, bydd yr adroddiad cyntaf ar effeithiolrwydd y WNMP, gan gynnwys cyfraniad y Cynllun i gyflawni'r Amcanion Morol Lefel Uchel (HLMOs) yn yr MPS, y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau amcanion y Cynllun ac effeithiau ac effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun, yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru o fewn tair blynedd i fabwysiadu'r Cynllun.

## Bwriadau ar gyfer paratoi a mabwysiadu unrhyw gynlluniau morol pellach

Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw fwriad ar hyn o bryd i baratoi na mabwysiadu unrhyw gynlluniau morol pellach.

## Cefndir

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA) yn darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cynllunio morol ledled y DU, yn darparu ar gyfer Datganiad Polisi Morol y DU (yr MPS, a gyhoeddwyd yn 2011) i sicrhau cydlyniad ar draws cynlluniau morol y DU ac mae'n ei gwneud yn ofynnol paratoi, mabwysiadu a chyhoeddi cynlluniau morol ar gyfer rhanbarthau cynlluniau morol lle mae'r MPS ar waith.

Mae'r MCAA yn gosod amrywiaeth o ofynion ar awdurdod cynllun morol, ac, ar gyfer ardaloedd ar y glannau ac ar y môr yng Nghymru, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod. Mae'r MCAA yn nodi'r broses o baratoi a mabwysiadu cynllun, pa faterion y dylai cynllun fynd i'r afael â hwy a sut y dylai gydymffurfio â'r MPS a bod yn gydnaws â rhai cynlluniau morol eraill a chynlluniau'r Ddeddf Gynllunio ar gyfer ardaloedd sy'n gysylltiedig ag ardal y cynllun morol. Mae adran 61(1)(c) o'r MCAA yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllun morol baratoi a gosod gerbron y ddeddfwrfa briodol, sef Senedd Cymru ar gyfer Gweinidogion Cymru, adroddiad sy'n nodi'r cynnydd ar y cynlluniau morol perthnasol, gan gynnwys manylion am:

- unrhyw gynlluniau morol y mae'r awdurdod wedi'u paratoi a'u mabwysiadu;
- bwriadau'r awdurdod ar gyfer eu diwygio; a
- ei fwriadau ar gyfer paratoi a mabwysiadu unrhyw gynlluniau morol pellach.


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gyda'i gilydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru ac i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae WFGA yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth gyflawni eu swyddogaethau a gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae WFGA yn nodi saith nod llesiant a phum ffordd o weithio, a oedd yn llywio datblygiad yr WNMP. Datblygwyd yr WNMP i lywio'r cyfraniad morol tuag at gyflawni'r nodau llesiant, gan osod polisïau sy'n ceisio diogelu'r amgylchedd morol a'i adnoddau, cydnabod y manteision i gymdeithas y mae'r amgylchedd a'i hadnoddau yn eu darparu a hyrwyddo defnydd a datblygiad cynaliadwy yr adnoddau hynny.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn canolbwyntio ar feithrin gwydnwch yn ein hecosystemau a chydnabod y manteision y maent yn eu darparu. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo gwydnwch ecosystemau a chynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR), fel y'u nodir yn y Ddeddf, yn darparu ffocws statudol ar gyfer gweithredu'r dull ecosystem drwy'r WNMP.

## Ffigur 1: Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru




Y ddelwedd ar y clawr wedi'i darparu gan Croeso Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43835 ISBN digidol 978-1-80391-242-4